**Cyfeirnod:** IR905

**Dyddiad cyhoeddi:** 18 Ionawr 2024

# Cyllid Cymru

Derbyniwch fy ymddiheuriadau diffuant am yr oedi wrth ymateb i'ch cais am wybodaeth, dyddiedig 5 Hydref 2023. Cafodd y neges e-bost a gynhyrchwyd o wefan WhatDoTheyKnow ei ddal gan ein hidlydd sbam, a dim ond yn ddiweddar y gwnaethom nodi beth oedd wedi digwydd o adolygu'r negeseuon e-bost mewn cwarantin.

Darperir eich cais am wybodaeth a'n hymateb isod:

**"A allwch gadarnhau a yw Cymru yn dal i gael £1.20 mewn cyllid am bob £1 yn Lloegr?"**

Nid ydym yn cadw gwybodaeth sy'n bodloni'r disgrifiad yn uniongyrchol i gadarnhau'r datganiad hwn, ond rydym wedi nodi dadansoddiad o lefel y cyllid datganoledig y pen yng Nghymru o gymharu â Lloegr mewn sawl adroddiad blaenorol. Yn fwyaf diweddar, yn ein hadroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus ym mis Medi 2021, cynhwyswyd dadansoddiad o dueddiadau rhwng 1999-00 a 2019-20 a nodwyd manylion am y wybodaeth ffynhonnell a oedd yn llywio'r dadansoddiad hwnnw. Nid ydym wedi diweddaru'r dadansoddiad hwnnw mewn unrhyw adroddiad cyhoeddedig ers y gwaith Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021). Fodd bynnag, yn dilyn Adolygiad o Wariant yn 2021, rhoddodd Llywodraeth y DU y wybodaeth ddiweddaraf o'r sefyllfa. Nododd, dros y cyfnod 2022-23 i 2024-25, y bydd Llywodraeth Cymru yn cael £120 y pen am bob £100 o gyllid cyfatebol gan Lywodraeth y DU yn Lloegr. Gweler Tabl 4.C yng nghyhoeddiad Tryloywder Grantiau Bloc.

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r gweithdrefnau a nodir ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn: https://www.audit.wales/cy/sefydliad-agored-thryloyw/polisi-gwybodaeth. Bwriad y gweithdrefnau yw sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y Cod Ymarfer a osodwyd o dan adran 45 o Ddeddf 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a deddfwriaeth berthnasol arall.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau am y ffordd yr ymdriniais â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth